

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 2 Mai 2019

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 9 MAI 2019** am **10.00** am yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU AM
9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

AGENDA

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y
RHAN HON O'R CYFARFOD**

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019 (copi ynghlwm).

5 POLISI CLUDIANT I DDYSGWYR SIR DDINBYCH (Tudalennau 17 - 34)

Ystyried adroddiad gan Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor drafod y camau posibl i'r Cyngor eu hystyried mewn perthynas â chludiant anstatudol y mae'n ei ddarparu ar hyn o bryd.

10.05am – 10.45am

6 EFFAITH CAU YSGOL RHEWL (Tudalennau 35 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Prif Reolwr – Cefnogi Addysg (Copi ynghlwm) sy'n amlinellu'r gefnogaeth a ddarparwyd i Ysgol Rhewl yn ystod y broses cau ac adborth gan fudd-ddeiliaid ar y gefnogaeth a dderbyniwyd.

10.45am – 11.15am

EGWYL 11.15am - 11.30am

7 CREDYD CYNHWYSOL (Tudalennau 45 - 62)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Prosiect Perfformiad a Chontractau - Cyllid (copi ynghlwm) sy'n amlinellu effaith Credyd Cynhwysol ar wasanaethau'r Cyngor a thrigolion y sir hyd yn hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru hyd yn hyn, ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer mesurau lliniaru effeithiau yn y dyfodol.

11.30am – 12.15pm

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 63 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12.15pm – 12.25pm

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12.25pm – 12.30pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cyngorydd Graham Timms (Is-
Gadeirydd)

Brian Blakeley
Meirick Davies
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Cheryl Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 a 6 yn unig)

Kathleen Jones
David Lloyd

Neil Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Iau, 14 Mawrth 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Meirick Davies, Rachel Flynn, Tina Jones, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol a Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc, yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen ar gais y Pwyllgor.

Roedd y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd a'r Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol dros Dai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd yn bresennol ar gyfer eitem rhif 6 ar y Rhaglen ar gais y Pwyllgor.

Aelodau Cyfetholedig – Kathleen Jones, David Lloyd a Neil Roberts

Arsylwyr: Y Prif Weithredwr, Judith Greenhalgh

Y Cynghorwyr Bobby Feeley, Alan James, Brian Jones, Peter Scott, Rhys Thomas a Mark Young.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KIE), Swyddog Arweiniol – Contractau a Chyfleusterau (NH), Swyddog Arweiniol – Eiddo a Stoc Dai Corfforaethol (DL), Cydlynnydd Craffu (RE), a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Merfyn Parry

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr Graham Timms, Glenn Swingler, Meirick Lloyd Davies, Brian Blakeley, Cheryl Williams, Anton Sampson, Tina Jones, Peter Scott, Mark Young, Rhys Thomas a Tony Thomas, ynghyd â David Lloyd a Neil Roberts i gyd fudd personol yn eitem 5 gan eu bod i gyd yn Llywodraethwyr Ysgol.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2018.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.*

5 POLISI DYLEDION PRYDAU YSGOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol gyd-adroddiad y Prif Reolwr Moderneiddio Addysg a'r Aelod Arweiniol Cyfleusterau, Asedau a Thai (a ddsbarthwyd eisoes) yn rhoi'r Polisi Dyledion Prydau Ysgol newydd gerbron y Pwyllgor i'w archwilio.

Yng ngoleuni proffil uchel diweddar a'r straeon yn y wasg genedlaethol ynglŷn â dyledion prydau ysgol, a gyda'r nod o sicrhau fod y polisi'n cynnwys mesurau diogelu llymch, penderfynwyd ailddrafftio'r polisi. Wrth wneud hynny, manteisiodd swyddogion ar y cyfle i dynhau'r gweithdrefnau cysylltiedig â diffyg talu dyledion prydau ysgol a hefyd i amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Cyngor.

Yn ystod ei gyflwyniad pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol bwysigrwydd diogelu disgyblion a sut y mae darpariaeth prydau ysgol a'r defnydd o'r polisi dyledion prydau ysgol yn cefnogi'r agenda diogelu, drwy ymyrraeth gynnar a chyfeirio rhieni at y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Pwysleisiodd mai cyflwyno llythyr ynghylch dyledion prydau ysgol yw'r cam olaf un, a gymerir pan fo popeth arall wedi methu, gan gynnwys y cynnig o gyngor, cymorth a chefnogaeth. Cadarnhaodd fod lefelau dyledion prydau ysgol yn y sir wedi goswng yn sylweddol ers diwedd blwyddyn calendr 2018, o tua £48k i tua £20k. Anfonwyd llythyr fel y dewis olaf un at y teuluoedd hynny yr oedd yr awdurdod yn gwybod eu bod mewn sefyllfa i dalu'r ddyled.

Cynghorodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc yr aelodau fod y Cyngor wedi dysgu gwersi yn sgil y llythyr a anfonwyd mewn perthynas â'r dyledion prydau ysgol ddiwedd 2018. Mae gan y Cyngor bolisi clir sydd yn awr yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws yr ysgolion o sicrhau y caiff pob plentyn ei fwydo er mwyn sicrhau ei fod yn ffynnu ym mhob agwedd ar ei addysg.

Roedd Estyn, wrth archwilio Gwasanaeth Addysg y Cyngor, wedi graddio'r gwasanaeth fel un ag arweinyddiaeth ragorol a daeth i'r casgliad fod y Sir yn cael cefnogaeth dda. Gan fod y Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaethau Plant yn cael eu rheoli gan yr un Pennaeth Gwasanaeth mae modd rhannu gwybodaeth yn rhwydd ac o'r herwydd mae gan y gwasanaethau ddealltwriaeth fanwl o anghenion addysg a lles pob disgybl. Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg y gallai tloidi fod yn rheswm dros gronni dyledion prydau ysgol ond bod modd er hynny rhwystro'r sefyllfa hon rhag codi drwy gefnogi rhieni i wneud cais am brydau ysgol am ddim

(PYDd) a'u cyfeirio at gefnogaeth o fathau eraill. Mae pryderon ynghylch diogelu yn wahanol gan y gallant godi yn unman pa un a yw'r plentyn yn byw mewn teulu ag anawsterau ariannol ai peidio.

Dywedodd yr ymgynghorwyd a phenaethiaid ysgolion a staff y Gwasanaethau Addysg a Phlant ynglŷn â'r polisi diwygiedig.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr Aelodau Arweiniol, y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Swyddog Arweiniol: Cyfleusterau, Asedau a Thai:

- y dylid newid y geiriad yn y llythyr drafft yn Atodiad 1 i'r polisi drafft i ddangos mwy o gydymdeimlad a chefnogaeth ac y byddai llai o ddefnydd o lythrennu trwm yn lleddfu tŷn ymosodol y llythyr;
- na fyddai dyledion prydau ysgol yn cael ei hailgodi ar gyllidebau ysgolion oni bai fod yr ysgol yn gwrthod ymgysylltu â'r dyledwr; os oedd ysgolion wedi ymgysylltu â'r broses o adfer dyledion byddai unrhyw ddyledion heb eu talu'n cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaethau Arlwygo.
- bod rhieni/gwarcheidwaid yn defnyddio'r Ap ParentPay i dalu am brydau ysgol eu plant.
Mae'r system hon yn un effeithiol gan ei bod yn rhoi dadansoddiad i rieni o yn union pa fwydydd a diodydd y mae eu plant yn eu prynu.
- bod siart llif yn Atodiad B o'r polisi drafft i bob ysgol ei ddilyn unwaith y bydd y 'pwynt sbardun' ar gyfer dyledion prydau ysgol, sef £11 neu fwy, wedi'i gyrraedd.
- mai'r ysgolion a'r penaethiaid sydd yn y sefyllfa orau i gychwyn a dilyn y broses a nodir yn y siart llif, gan mai nhw sy'n adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn well na neb arall. Byddent yn ymwybodol o unrhyw broblemau neu ffactorau cyfranogol a allent fod wedi arwain at y ddyled.
- nad oedd Asesiad o Effaith ar Les wedi ei gynnal eto ar y polisi gan ei fod yn dal ar ei ffurf drafft.
Unwaith y caiff y polisi ei gymeradwyo, bydd Asesiad yn cael ei gynnal.
- rhoddwyd eglurhad ar y pwynt yn natganiad y Prif Swyddog Cyllid ynghylch y ffaith fod dyledion prydau ysgol yn rhoi pwysau ar Gyllideb y Gwasanaeth Arlwygo.
Byddai unrhyw ddyled heb ei hadfer, er gwaethaf y ffaith fod yr ysgol wedi mynd ar ei hôl, yn y pen draw yn dod o gyllideb y Gwasanaeth Arlwygo, a dyma'r rheswm pam y gallai hyn roi pwysau uniongyrchol ar y gwasanaeth hwnnw. Pe bai'n dod i'r amlwg yn ystod ymdrechion ysgolion i adfer y ddyled bod y teulu'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim, byddai hynny'n cael effaith gadarnhaol ar hawliau Grant Cynnal Refeniw'r Cyngor a grantiau seiliedig ar ddisgyblion.
- nad oedd unrhyw gydberthynas rhwng lefelau dyledion prydau ysgol ac ardaloedd daearyddol y sir neu ardaloedd lle'r oedd lefelau PYDd yn uwch na'r cyfartaledd.
- mai'r sbardun ar gyfer cychwyn y broses dyledion prydau ysgol yw £11, sef cost wythnosol prydau ysgol fesul plentyn.
- mai'r ddyled fesul ysgol fesul wythnos ar gyfartaledd yw £7, y rheswm am ddyledion mewn nifer fawr o achosion yw bywydau prysur

rhieni/gwarcheidwaid sy'n anghofio rhoi eu harian yn eu cyfrifon ParentPay. Unwaith y tynnir sylw'r rhan fwyaf o rieni at hyn maent yn talu eu dyledion yn gyflym iawn;

- y byddai'n anodd i Reolwyr Cyllid a Busnes clystyrau ysgolion fod yn gyfrifol am waith adfer dyledion prydau ysgol gan fod pob ysgol yn rhedeg eu systemau talu eu hunain
- fod penaethiaid a rhieni'n gefnogol o'r system ParentPay gan fod rhieni'n gallu cadw llygad ar arferion bwyta eu plant. Holodd swyddogion a fyddai modd addasu ParentPay i gynnwys cyfleuster talu dros deulu yn ogystal â chyfleuster talu dros ddisgybl unigol.
- roedd 'polisiau byrbrydau', gan gynnwys rheoli unrhyw ddyled berthnasol, yn fater i bob ysgol unigol ei weinyddu a'i reoli. Bydd swyddogion yn cysylltu ag ysgolion i sicrhau fod eu polisiau byrbrydau'n cyd-fynd â pholisi prydau ysgol y sir.
- bod posibilrwydd o sicrhau fod llythyr am ddyledion prydau ysgol yn cyrraedd ar ddiwrnod gwaith/ysgol yn hytrach nag ar ddydd Sadwrn fel y gall rhieni gysylltu â'r ysgol ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater.
- mai'r rheswm dros roi gwybod i rieni/gwarcheidwaid ar unwaith pan fo'r trothwy o £11 wedi ei gyrraedd oedd er mwyn sicrhau nad yw'r ddyled yn cynyddu i lefel lle gallai beri anawsterau.
- pe bai plentyn yn cael ei farnu'n ddiamddiffyn a bod ei rieni/gwarcheidwaid wedi cael llythyr am ddyledion prydau ysgol, y byddai ef hi yn dal i gael pryd o fwyd poeth. Byddai plentyn y bernir nad yw'n ddiamddiffyn yn cael pecyn bwyd. Byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i ofalu nad yw amgylchiadau'r plentyn yn amlwg i'w gyfoedion.
- bod anghenion dietegol yn cael eu hystyried ym mhob ysgol, gan gynnwys ysgolion arbennig, ac y byddent yn cael eu hystyried pe bai disgybl yn cael pecyn cinio o dan y Polisi Dyledion Prydau Ysgol; a
- bod y polisi'n glir mai lles plant unigol yw'r peth pwysicaf oll wrth ddefnyddio'r polisi

Roedd y Pwyllgor y awyddus i sicrhau mai llythyr atgoffa sy'n cael ei anfon at rieni/gwarcheidwaid yn y lle cyntaf, sy'n tynnu eu sylw at y ddyled ac at y cymorth sydd ar gael os ydynt yn cael trafferthion ymdopi'n ariannol, cyn anfon y llythyr dyledion prydau ysgol mwy ffurfiol.

Tynnodd y ddau Aelod Arweiniol a'r swyddogion sylw penodol at safon Gwasanaeth Arlwygo Ysgolion y Sir, sydd ymysg y tri gwasanaeth arlwygo ysgolion gorau yng Nghymru a'r deg gorau yn y DU. Yn ddiweddar enillodd Jane Jones, cogyddes yn Ysgol Twm o'r Nant, Sir Ddinbych, wobwr Cogyddes Ysgol Orau Cymru a bydd cyn bo hir yn cynrychioli Cymru yn rowndiau terfynol y DU yn Stratford-upon-Avon. Gofynnodd y Pwyllgor bod eu llongyfarchiadau'n cael hestyn i Ms Jones.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

PENDERFYNWYD: wedi archwilio'r Polisi Dyledion Prydau Ysgol drafft diwygiedig, yn amodol ar y sylwadau uchod:

- (i) bod y polisi drafft yn cael ei newid i gynnwys anfon llythyr atgoffa yn y lle cyntaf;

- (ii) *bod hyn yn cael ei ddilyn, os oes angen, â fersiwn diwygiedig o'r llythyr yn Atodiad A, sef llythyr wedi ei eirio'n fwy sympathetig a chefnogol ac yna'i anfon fel ei fod yn cyrraedd ar ddiwrnod gwaith/ysgol.*
- (iii) *bod ymholiadau'n cael eu gwneud i weld a fyddai modd addasu ParentPay i gynnwys cyfleuster talu dros deulu yn ogystal â chyfleuster talu dros ddisgybl unigol.*
- (iv) *unwaith y bydd wedi'i addasu yn unol ag argymhellion y Pwyllgor, bod y polisi'n cael ei gymeradwyo drwy gyd- Benderfyniad Dirprwyedig gan y ddau Aelod Arweiniol a'i ddosbarthu i bob Cyngorydd er gwybodaeth.*

Ar y pwynt hwn (11.05 am) cafwyd 10 munud o egwyl.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.15 a.m.

6 DARPARIAETH SAFLE SIPSIWN A THEITHWYR - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YN DILYN Y BROSES YMGYNGHORI CYN CYNLLUNIO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd adroddiad (wedi'i ddosbarthu eisoes) i'r Pwyllgor Craffu ar yr ymarfer Ymgynghori Cyn-cynllunio a gynhaliwyd mewn perthynas â darpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a thramwy.

Mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad a throsolwg o'r ymatebion i Broses Ymgynghori Cyn-Cynllunio'r Cyngor.

Yn ystod ei gyflwyniad dywedodd yr Aelod Arweiniol y derbyniwyd dros 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad a diolchodd i bawb a oedd wedi ymateb am gymryd rhan yn y broses.

Drwy gyflwyniad PowerPoint gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol:

- pwysleisiwyd bod y Cabinet wedi dewis ymgymryd â'r ymarfer hwn, er nad oedd y broses yn un yr oedd gofyniad cyfreithiol amdano mewn perthynas â'r cynnig hwn.
- cafwyd trosolwg o'r broses ymgynghori cyn-cynllunio
- cafwyd crynodeb o weithgareddau lleol mewn perthynas â'r ymgynghoriad
- amlygwyd y pryderon Cydraddoldeb a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad
- cadarnhawyd y derbyniwyd cyfanswm o 774 o ymatebion gan bobl o ardal ddaearyddol eang.
O'r 774 ymateb a dderbyniwyd, roedd 20% wedi defnyddio'r llythyr templed i'w cyflwyno ac yn yr ymatebion hynny cofnodwyd 4526 o faterion/problemâu
- cynghorwyd bod y Comisiwn Cydraddoldeb wedi bod yn cymryd diddordeb yn y cynnig a'r broses.
Roedd oddeutu 17% o'r ymatebion a gafwyd yn cynnwys sylwadau amhriodol, fodd bynnag nid oedd yr ymatebion hyn i gyd wedi'u diystyru yn eu cyfanrwydd. Roedd unrhyw elfennau amhriodol wedi'u diystyrru ond roedd yr holl sylwadau priodol wedi eu hystyried fel rhan o'r dadansoddiad cyffredinol. Roedd un gŵyn yn ymwneud â mater cydraddoldeb wedi'i chofrestru gan y Cyngor;
- bod 16 o o bobl wedi mynychu'r digwyddiad 'galw heibio' a gynhaliwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

- bod y prif faterion a godwyd yn yr adborth yn ymwneud â lleoliad, gwybodaeth am y cynigion, materion priffyrdd, yr effaith economaidd, y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), materion diogelwch a chyfraddau trosedd, iechyd a materion iechyd a diogelwch, agosatwydd y ddau safle at ei gilydd a'r effaith weledol ar yr ardal leol;
- cadarnhau, er nad oedd yr holl faterion a godwyd yn rhai a oedd yn ymwneud â chynllunio, roeddent yn bwysig ac yn peri pryder i drigolion lleol. Roedd y swyddogion yn fodlon fod y materion cynllunio materol yn rhai y gellid eu lliniaru'n foddhaol drwy'r broses gynllunio ffurfiol, ac roedd ymchwil trylwyr a wnaed yn awgrymu nad oedd yr effeithiau yr oedd rhai yn credu y byddai'r safleoedd yn eu cael ar yr ardal a'r gymuned yn debygol o ddigwydd.

Cyn agor y sesiwn ar gyfer cwestiynau gan y Pwyllgor pwysleisiodd y Cadeirydd mai pwrpas y drafodaeth yn y cyfarfod oedd dadansoddi'r ymarfer cyn-cynllunio a gynhaliwyd a'r ymatebion a gafwyd i'r safleoedd sipsiwn a theithwyr preswyl a thramwy arfaethedig ar safle Fferm Green-gates (Dwyreiniol) yn Llanelwy. Nid oedd bwriad i ailedrych ar drafodaethau cynharach am yr asesiad o anghenion sipsiwn a theithwyr na lleoliad arfaethedig y safle gan fod y materion hyn eisoes wedi'u cymeradwyo, eu hadolygu a'u cadarnhau. Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth y Pwyllgor fod y Cabinet wedi cymryd safbwyntiau Craffu o ddifrif. Roedd y Cabinet angen bodloni ei hun fod digon o waith wedi cael ei wneud cyn y gallai ailgadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol a chafodd sicrwydd fod hyn wedi digwydd

Dywedodd yr Is-Gadeirydd eto pa mor siomedig yr oedd yn ei deimlo ar ôl cyflwyno pryderon ac argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet yn dilyn 'galw i mewn' y penderfyniad a wnaed ym mis Hydref 2018 i gymeradwyo safle Fferm Green-gates (Dwyreiniol) ar gyfer y safle Sipsiwn a Theithwyr tramwy yn ogystal â safle preswyl. Roedd o'r farn nad oedd y Cabinet wedi rhoi digon o amser iddo'i hun nac wedi rhoi'r ystyriaeth ddyledus i sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu cyn cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, rhoddodd yr Aelod Arweiniol, Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau a'r Swyddog Arweiniol Eiddo a Thai y wybodaeth ganlynol:

- cadarnhad na allai'r Cyngor wneud cais am arian grant Llywodraeth Cymru (LIC) i ddatblygu unrhyw rai o'r safleoedd hyd nes y ceir caniatâd cynllunio ar eu cyfer;
- tra bo'r safleoedd preswyl a thramwy yn yr achos hwn yn agosach at ei gilydd na'r hyn a awgrymir yn arweiniad LIC, roedd swyddogion wedi trafod hyn gyda swyddogion LIC a oedd wedi gofyn am sicrwydd fod y lleoliadau arfaethedig wedi cael eu trafod gyda'r cymunedau sipsiwn a theithwyr. Tra bo rhywfaint o bryder ymysg y gymuned sipsiwn a theithwyr ynghylch agosatwydd y safleoedd roedd LIC wedi nodi eu bod yn fodlon â'r penderfyniad i leoli'r ddau safle yn Fferm Green-gates (Dwyreiniol).
- cadarnhad fod cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswyl yn neu'n cyrchu i ardal awdurdod lleol yn ofyniad o dan Ddeddf

Tai (Cymru) 2014. I gydymffurfio â'r gofyniad hwn roedd y Cyngor wedi cynnal yr asesiad angenrheidiol yn 2017.

Arweiniodd hyn at ddynodi angen am safle preswyl a thramwy yn y sir. Yn yr Asesiad gwelwyd angen am 6 safle preswyl a 5 safle tramwy yn y sir. Wedi cyflwyno'r canlyniadau i LIC cymeradwywyd proses asesu a chasgliadau'r Cyngor ac o'r herwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr awdurdod i ddarparu'r safleoedd hyn.

- bod y Cyngor, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi asesu effaith pob safle arfaethedig ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd (cyhoeddwyd copiâu o'r Asesiadau o Effaith ar Les cysylltiedig â'r safleoedd tramwy a phreswyl gyda phapurau'r Pwyllgor).

Tra bo'r Asesiadau hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith economaidd, roedd eu cwmpas yn llawer ehangach na chwmpas asesiad o effaith ar les diwydiant/busnes. I ddechrau cynhaliwyd un Asesiad o Effaith ar Les a oedd yn cynnwys y safle preswyl a'r safle tramwy. Fodd bynnag, wedi derbyn cyngor gan y Panel Cyfeillion Beirinadol a adolygodd yr Asesiad hwnnw, penderfynwyd y byddai'n fanteisiol adolygu'r Asesiad gwreiddiol a'i rannu'n ddau, un ar gyfer pob safle. Mae'r ddau Asesiad bellach wedi eu hadolygu gan y Panel Cyfeillion Beirniadol;

- bod yr holl lythyrau a gohebiaeth a dderbyniwyd gan fusnesau lleol wedi eu bwydo i mewn i'r broses ymgynghori.

Yn ogystal, roedd yr Aelod Arweiniol a swyddogion o Dîm Datblygiad Economaidd a Busnes y Cyngor wedi cyfarfod â nifer o fusnesau ac arweinwyr/cynrychiolwyr busnesau yn yr ardal i drafod y cynigion. Cafodd pob busnes yr un cyfle ag aelodau eraill y cyhoedd i ymgysylltu â'r broses ymgynghori;

- cadarnhad nad oedd unrhyw dystiolaeth i ategu'r honiad gan yr Aelod Cynulliad (AC) lleol fod busnesau a oedd wedi dangos diddordeb blaenorol mewn symud i, neu sefydlu eu hunain ar barc busnes cyfagos wedi newid eu meddyliau o ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig safleoedd sipsiwn a theithwyr yn yr ardal;
- bod yr Aelod Arweiniol wedi siarad â Phrif Weithredwr un o'r busnesau mwyaf yn y cyffiniau ar dri achlysur dros y mis blaenorol.
- bod y Cyngor yn cydnabod y byddai'r datblygiad hwn yn cael effaith, yn yr un modd ag unrhyw ddatblygiad arall yn y sir.

Fodd bynnag defnyddiwyd sawl sianel wybodaeth i ddibenion hysbysu a chynghori preswylwyr a busnesau ar faterion yn ymwneud â'r datblygiad h.y. digwyddiad 'galw heibio' yn Llyfrgell Llanelwy a fynychwyd gan 160 o bobl, gwybodaeth 'chwalu mythau' ar wefan y Cyngor a thros amser cynyddodd gwybodaeth ar y wefan ynghylch sut yr oedd y cynigion yn datblygu.

- cadarnhad fod yr Asesiadau o Effaith ar Les wedi asesu'r effaith ar yr holl breswylwyr, yn cynnwys y rhai hynny ag anabledau a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol;
- bod y broses o adnabod a chytuno ar safleoedd arfaethedig wedi bod yn un agored a thryloyw;

Roedd y 'galw am safleoedd' gwreiddiol wedi ei wneud yn gyhoeddus, fel yr oedd yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Yr unig elfennau a drafodwyd o dan fusnes Rhan II oedd y manau a ddynodwyd fel lleoliadau

posibl ar gyfer y safleoedd, a hynny am resymau'n ymwneud â gofynion sensitifrwydd masnachol.

- bod cael dros 700 o bobl yn ymateb cyn cyflwyno cais cynllunio yn galonogol dros ben;
- cadarnhad, er nad oedd y safleoedd arfaethedig yn Fferm Green-gates (Dwyreiniol) wedi eu dynodi fel safleoedd datblygu o dan y CDLI cyfredol, byddai unrhyw gais a wnaed mewn perthynas â'r safle'n cael ei brofi yn erbyn polisi BSC10 y CDLI, sy'n ymwneud ag adeiladu cymunedau cynaliadwy.

Yn yr un modd, pe derbyniwyd cais i adeiladu tai fforddiadwy/cymdeithasol ar ddarn o dir nad yw o fewn ardal y CDLI, bydda'r cais hwnnw'n cael ei brofi yn erbyn polisi BSC4 y CDLI. Byddai'n rhaid i'r fath geisiadau ddangos angen cyfiawn am ddatblygiad y tu allan i ardaloedd aneddiadau.

- cadarnhad fod y Cabinet yn gweithredu o fewn ei hawliau wrth geisio dynodi safleoedd posibl i'r diben penodol hwn.

Byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw safle. Byddai disgwyl iddo seilio ei benderfyniadau ar bolisiau wedi'u mabwysiadu a materion cynllunio materol.

- o ran y defnydd o astudiaethau achos o ddarpariaeth ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr tramwy a phreswyl ar draws y DU ac Ewrop wrth ymateb i nifer o'r sylwadau a gafwyd yn yr adborth, y rheswm am hyn oedd oherwydd nad oedd astudiaethau cyffelyb o safleoedd yng Nghymru ar gael, er gwaethaf y ffaith fod nifer o safleoedd yn bodoli yng Nghymru - roedd y ffotograffau o a ddangoswyd yn y cyflwyniad o safle ar barc diwydiannol yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a safle ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

- cadarnhad bod y Cyngor wedi gweithio'n agos ag awdurdodau lleol eraill, LIC a'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y safleoedd yn Sir Ddinbych.

- cadarnhad fod prawf ecolegol wedi ei gynnal ar y safleoedd arfaethedig
Os bydd y cynnig/cynigion yn symud ymlaen i'r cam cynllunio ffurfiol, bydd astudiaeth ecolegol dwysach ac astudiaethau eraill yn cael eu cynnal. Dilyniir yr un drefn ar gyfer unrhyw gais cynllunio cysylltiedig â datblygiadau newydd.

- nodi unwaith eto fod yr ymarfer ymgynghori cyn-cynllunio yn ymwneud â'r datblygiad, nid â phwy fyddai'n byw yno yn y pendraw.

- bod teulu yn byw yn y sir ar hyn o bryd y mae eu hanghenion am safle preswyl wedi ei nodi a bod ganddynt fel grŵp ethnig cydnabyddedig hawl i ddisgwyl y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Fel teulu Sipsiwn neu Deithwyr, nid tŷ yn y sir sy'n diwallu eu hanghenion ond yn hytrach ddarpariaeth llain i leoli eu carafán eu gartref symudol arno.

- os nad yw'r Cyngor yn diwallu'r angen a ddynodir yn ei Asesiad Anghenion Llety ei hun, byddai'n agored i ymglyfreithiad yn yr Uchel Lys.

Gallai'r Comisiwn Cydraddoldeb ystyried cefnogi camau cyfreithiol yn erbyn y Cyngor am fynd yn groes i'w ddyletswydd statudol mewn perthynas â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Hyd yn oed pe bai'r Cabinet yn gohirio penderfyniad ynghylch unrhyw un o'r safleoedd arfaethedig byddai'r ddyletswydd i ddiwallu'r angen a ddynodwyd yn bodoli o hyd; a

- cadarnhad fod swyddogion yn fodlon y dynodwyd y safleoedd yn unol â chanllawiau LIC a'u bod wedi ystyried popeth yn yr arweiniad o ran addasrwydd, fforddiadwyedd ayyb.

Tynnodd aelod lleol Llanelwy (gorllewinol) sylw'r Pwyllgor at yr ymdrechion a wnaed gan Gyngor y Ddinas i roi gwybod i'r holl breswylwyr a busnesau am y cynigion ac i'w cynnwys yn y broses ymgynghori cyn-cynllunio.

Amlinellodd Swyddog Monitro'r Cyngor ddyletswydd cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n gofyn fod yn rhaid diystyru unrhyw sylwadau bychanol a wneir ar seiliau ethnigrwydd neu stereoteipio. Ar y sail hon roedd gan y Cyngor hawl i anwybyddu pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr a oedd wedi gwneud sylwadau bychanol neu dramgwyddus ar eu ffurflenni, fodd bynnag penderfynwyd peidio â gwneud hyn ond yn hytrach tynnu'r ymatebion hynny allan a chynnwys yr holl adborth arall yn y dadansoddiad.

Cyn llunio argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cabinet gofynnodd y Pwyllgor bod y cyfarfod yn cael ei ohirio er mwyn galluogi llunio argymhelliad clir.

**Ar y pwynt hwn (12.50 p.m.) gohiriwyd y cyfarfod.
Ailddechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m.**

Pan ailddechreuodd y cyfarfod cyflwynwyd dau argymhelliad sef:

- (i) na ddylid datblygu'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl yn agos at ei gilydd, ym mha le bynnag y maent wedi'u lleoli; a
- (ii) bod lleoliad y safleoedd sipsiwn a theithwyr preswyl a thramwy'n cael ei bennu drwy broses barhaus y Cynllun Datblygu Lleol.

Cymeradwywyd Argymhelliad (i) yn unfrydol a chymeradwywyd Argymhelliad (ii) drwy bleidlais fwyafrifol.

Felly:

PENDERFYNWYD – *bod y Pwyllgor, wedi ystyried y dadansoddiad o'r ymarfer ymgynghori cyn-cynllunio a gwblhawyd mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a thramwy arfaethedig ar safle Fferm Green-gates (Dwyreiniol) yn Llanelwy yn argymhell i'r Cabinet -*

- (i) *Na ddylid datblygu'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a thramwy'n agos at ei gilydd, ym mha le bynnag y maent wedi'u lleoli; a*
- (ii) *bod lleoliad y safleoedd sipsiwn a theithwyr preswyl a thramwy'n cael ei bennu drwy broses barhaus y Cynllun Datblygu Lleol.*

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Oherwydd nifer yr eitemau ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod ar 9 Mai 2019, cytunwyd y dylid symud dwy eitem. Cytunwyd felly ar y canlynol:

9 Mai 2019

- (i) Credyd Cynhwysol
- (ii) Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych: Elfennau anstatudol
- (iii) Ysgol Rhewl

4 Gorffennaf 2019

- (i) Swyddog Cydymffurfiaeth Cynllunio
- (ii) Gweithdrefn Rheoleiddio Parciau Carafanau a Gwyliau
- (iii) Diweddariad ar Reoli Gwylanod
- (iv) Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio

5 Medi 2019

- (i) Cyfrifoldebau Rheoli Llifogydd yn Sir Ddinbych
- (ii) Strategaeth Arwyddion Twristiaeth Sir Ddinbych
- (iii) Dyluniad Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig

Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu y byddai sesiwn frifio'n cael ei chynnal 45 munud cyn dechrau'r Cyfarfod Arbennig ynghylch Tân Mynydd Llandysilio ar ddydd Mercher 20 Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y'i gwelir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.25pm.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	9 Mai 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc/ Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg
Teitl:	Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych: Elfennau Anstatudol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych 2018.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu manylion elfennau anstatudol Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych 2018.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i drafod y camau nesaf posibl ar gyfer Sir Ddinbych ynghylch Cludiant i Ddysgwyr; rhoi ystyriaeth i'r cludiant anstatudol mae'r Awdurdod yn ei ddarparu ar hyn o bryd. Nodir fod angen cwblhau unrhyw newidiadau a wneir mewn perthynas â'r polisi cludiant i'r ysgol flwyddyn ysgol lawn cyn eu rhoi ar waith.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Daeth Polisi Cludiant i Ddysgwyr presennol Sir Ddinbych i rym o fis Medi 2018. Gweithredwyd y polisi yn dilyn ymgynghori gyda holl fudd-ddeiliaid yn 2017 i gwblhau blwyddyn ysgol lawn cyn gweithredu. Mae'r polisi yn cynrychioli sut mae'r Awdurdod yn cyflawni ddyletswyddau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008; a elwir o hyn allan y 'Mesur'.

4.2 Mae'r Mesur yn darparu'r sail statudol ar gyfer darparu holl gludiant i ysgolion yng Nghymru. Mae Atodiad 1 yn dangos manylion ymrwymadau'r Awdurdod dan statud.

4.3 Cludiant Dewisol

4.3.1 Heb ystyried elfennau statudol y Mesur, gall Awdurdodau Lleol gynnwys elfennau dewisol yn eu polisi. Mae'r Awdurdodau hefyd yn cael eu harwain i arfer disgrisiwn, mewn meysydd penodol, dan Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio Gan Ddysgwyr, sy'n cyd-fynd â'r Mesur. Lle caiff disgrisiwn ei arfer, rhaid i'r Awdurdod amlinellu'r meysydd hyn yn glir yn eu polisi. Mae sawl Awdurdod ar draws Cymru, gan gynnwys Sir Ddinbych, yn defnyddio disgrisiwn i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol yn eu hardaloedd. Yn Sir Ddinbych, mae'r polisi ar hyn o bryd yn cynnwys yr elfennau dewisol a ddangosir isod. Ym mhob achos, dangosir yr adran berthnasol yn ein polisi yn Atodiad 2.

- 4.3.2 **Cludiant ôl-16** – mae'r Mesur yn gorchymyn fod Awdurdodau yn asesu anghenion pob dysgwr hyd at 19 oed. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant i ddysgwyr sy'n parhau ag astudiaethau ôl-16 mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif ffrwd.
- 4.3.3 **Cludiant Ysgolion Ffydd** - Mae Sir Ddinbych, ynghyd â nifer o Awdurdodau Lleol eraill, yn darparu cludiant dewisol i'r ysgolion ffydd addas agosaf, os mai dyma gais y rhieni/ gwarcheidwaid. Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried ceisiadau am gludiant i ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd lle mae rhieni/ gwarcheidwaid yn gofyn yn benodol i gael peidio mynd i ysgol ffydd, os mai dyna eu hysgol addas agosaf.
- 4.3.4 **Trefniadau Ysgolion Bwydo** – Yn adolygiad polisi 2018, ceisiodd yr Awdurdod gefnogi lles y dysgwyr drwy gynnwys perthynas fwydo ddewisol gan ein hysgolion cynradd i'w hysgolion uwchradd dynodedig. Mae'r broses hon yn caniatáu dysgwyr i gael dewis, yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd, o naill ai gael cludiant i'w hysgol uwchradd addas agosaf neu ysgol uwchradd fwydo. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr un ysgol fydd hon; fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd gwledig gallai'r ysgol uwchradd addas agosaf fod tu allan i'r sir ac nid oedd rhai dysgwyr yn gallu aros gyda'u cohort o ffrindiau a derbyn cludiant am ddim. Mae nifer o gafeatau ynghylch y defnydd o'r disgresiwn hwn. Mae'r rhain wedi'u dangos yn Atodiad 2.
- 4.3.5 **Hyrwyddo'r Gymraeg** – Dan adran 10 y Mesur, mae gofyn i Awdurdodau Lleol hyrwyddo mynediad i addysg Cyfrwng Cymraeg – dangosir isod:

10 Hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg - Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg wrth arfer swyddogaethau dan y Mesur hwn.

Dehonglir hyn ar draws Cymru fel gofyniad i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol Cyfrwng Cymraeg addas agosaf, naill ochr i unrhyw gynnig o gludiant am ddim i'r ysgol cyfrwng Saesneg addas agosaf; pa bynnag un yw dewis y rheini/gwarchodwyr. Fodd bynnag, mae'r ddau'n ddibynnol ar gyflawni'r meini prawf pellter.

Gan nad yw adran 10 yn gorchymyn yn benodol fod rhaid darparu cludiant, mae'r elfen hon yn dod o dan drefniadau dewisol yr Awdurdod gan fod Sir Ddinbych yn dewis 'hyrwyddo mynediad' i addysg cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cludiant ffafriol.

- 4.3.6 **Symud Tŷ** – O fewn y Ddarpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a'r Canllawiau Gweithredol, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai dysgwyr sy'n symud tŷ yn ystod astudiaethau TGAU dderbyn cludiant am ddim i'w ysgol flaenorol; cyn belled eu bod yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol o ran pellter. Os yw'r dysgwr yn symud i awdurdod cyfagos, disgwylir i'r awdurdod hwnnw dalu a threfnu'r teithio.
- 4.3.7 **Ad-drefnu Ysgolion** – Fel rhan o raglen Moderneiddio Addysg Sir Ddinbych, gall yr Awdurdod ddefnyddio eu disgresiwn wrth ystyried cludiant i ddysgwyr a effeithir gan newidiadau. Bydd natur a'r math o ddisgresiwn yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r ysgol unigol; serch hynny, ymgynghorir ar un rhyw drefniadau a byddant yn cael eu cofnodi o fewn y broses ffurfiol o ad-drefnu ysgolion.

4.3.8 **Trosglwyddiadau Ysgol a Reolir** – Gall yr Awdurdod, dan amgylchiadau penodol, ddarparu cludiant dewisol i ddysgwyr lle mae Addysg ac Ysgolion yn cytuno y byddai trosglwyddiad a reolir i ysgol arall yn fuddiol i'r dysgwr. Mae hyn hefyd yn dibynnu ar sicrhau fod y dystiolaeth berthnasol ar gael sy'n cefnogi'r disgresiwn hwn gan yr Awdurdod a'r ysgol.

4.3.9 **Darpariaethau Dewisol Eraill** - Gall yr Awdurdod weithredu disgresiwn dan amgylchiadau eraill gyda chytundeb y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae disgresiwn o'r fath fel rheol yn ymwneud ag amgylchiadau penodol e.e. diogelu, meddygol, anabledd ac ati; gyda thystiolaeth gefnogol yn cael ei darparu. Lle caiff disgresiwn o'r fath ei arfer, mae'r Awdurdod yn cofnodi hyn er mwyn sicrhau dull cyson.

4.4 **Cludiant Arall**

4.4.1 **Cludiant AAA** – Nodir ynghyd â Pholisi Cludiant i Ddysgwyr yr Awdurdod y gallai penderfyniadau i ddarparu cludiant hefyd gael eu darparu ar sail angen addysgol arbennig (AAA). Mae hyn yn dilyn y canllawiau a ddarperir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru gyda cheisiadau cludiant AAA unigol yn cael eu prosesu gan y tîm ADY a Chynhwysiant. Mae swyddogion yn datblygu canllawiau pellach yn y maes hwn i sicrhau eglurder ynghylch pryd y caiff cludiant AAA ei ddarparu, yn ogystal ag amlygu cyfrifoldeb rhieni / gwarchodwyr i rannu gwybodaeth berthnasol. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno cost llawn cludiant AAA; fodd bynnag dangosir enghraifft o un safle yn Atodiad 3.

4.4.2 **TRAC ac ADTRAC** – Mae hefyd niferoedd llai o ddysgwyr sy'n derbyn cludiant i gefnogi eu hanghenion a gwaith y timau hyn.

4.5 **Cost Gwasanaethau yn ôl Disgresiwn**

4.5.1 Mae tîm Cludiant i Deithwyr Sir Ddinbych yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau ar gyfer dysgwyr cymwys. Cyfeirir at grynodedd o'r costau sy'n gysylltiedig â'r meysydd dewisol yn 4.3.1 i 4.3.5 (ar gyfer 2017/18) yn Atodiad 5. Nid yw'r meysydd dewisol eraill (4.3.6 i 4.3.9) wedi eu cynnwys yn benodol gan fod y rhain naill ai'n mynd i'r afael ag amgylchiadau unigol ar gyfer nifer llai o ddysgwyr ac/ neu eu bod yn anoddach i'w cyfrifo o safbwynt eu canran o'r costau llawn; neu eu bod yn drefniadau mwy tymor byr i fynd i'r afael ag anghenion penodol.

4.5.2 **Costau Cludiant Ôl 16** (Gweler Tabl 1 Atodiad 4)

4.5.3 **Costau Cludiant Ffydd** (Gweler Tabl 2 Atodiad 4)

4.5.4 **Costau Cludiant Addysg Gymraeg** (Gweler Tabl 3 Atodiad 3)

4.5.5 **Cludiant Ysgolion Bwydo** - Cyn i'r Polisi Cludiant i Ddysgwyr newydd ddod i rym o 2018, cynhaliai Cludiant Addysg wiriadau i sicrhau bod dysgwyr a arferai gael eu hasesu yn erbyn yr ysgol uwchradd addas agosaf yn unig yn cael eu hailasesu'n gywir. Dangosodd canlyniad y broses hon fod y newid hwn yn y polisi ond yn effeithio ar niferoedd cymharol fychan o ddysgwyr. O safbwynt costau, mae'n ymddangos yn bennaf fod hyn wedi golygu fod dysgwyr yn eistedd ar seddi ar wasanaethau i ysgolion uwchradd Sir Ddinbych a fyddai fel arall wedi bod yn wag ac ar gael fel seddi gostyngol. Mae hefyd wedi lleihau'r angen i'r Awdurdod ddarparu gwasanaethau unigol ar gyfer dysgwyr i ysgolion uwchradd eraill, gan gynnwys rhai y

tu allan i'r sir. Mae disgwyl felly i effaith net y trefniant ysgolion bwydo hwn barhau i fod yn isel, er nad oes crynodeb o'r union gostau ar gael i'w cyflwyno yma.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r polisi cysylltiol hwn wedi ei gysylltu â'r flaenoriaeth 'Mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio yn Sir Ddinbych, ac yn meddu ar y sgiliau i wneud hynny'.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Dangosir costau perthnasol i'r gwasanaeth hwn yn atodiadau'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes asesiad o'r effaith ar les wedi ei chynnal eto gan fod hon yn drafodaeth ragarweiniol ar ddiwygiadau posibl i'r polisi yn y dyfodol.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Trafodaeth cam cyntaf yw hon i ystyried hyfywedd y dewisiadau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hwn yn faes cymhleth sydd â goblygiadau ariannol sylweddol. Er mwyn cael dealltwriaeth llawn o oblygiadau ariannol unrhyw newidiadau i bolisiau mae'n ofynnol iddynt gael eu profi'n drwyadl.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid yw'r adroddiad hwn, ar hyn o bryd, yn amlygu newidiadau penodol. Bydd dadansoddiad risg felly'n cael ei gwblhau unwaith y cytunir ar ddewisiadau posibl i'w hymchwilio ymhellach.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Mae Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Craffu o ran datblygu ac adolygu polisïau.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg

Ffôn: 01824 712692

The duties contained in the Measure require Authorities to:

- Assess the travel needs for learners (up to the age of 19) who are ordinarily resident within Denbighshire; to and from where they receive education and training.

For the purposes of assessment the Authority must have regard to:

- the needs of learners who are disabled persons
 - the needs of learners with learning difficulties
 - the needs of learners who are children looked after, or formerly looked after, by a local authority
 - the age of the learners
 - the nature of the routes which learners could reasonably be expected to take to the relevant places where they receive education or training.
- The Authority must provide free home to school transport for those of compulsory school age attending primary school and living 2 miles or further from their nearest suitable school
 - The Authority must provide free home to school transport for those of compulsory school age (i.e. up to year 11) attending secondary school and living 3 miles or further from their nearest suitable school.
 - Promote access to Welsh medium education
 - Promote sustainable modes of travel

The Measure also requires the Authority to have due regard to the walking routes between home and school for non-eligible learners who live under the stipulated distances; as well as for those walking routes between home and pick-up points used by eligible learners. If routes are designated as hazardous for walking after appropriate assessment by Denbighshire's Highways Engineers, the Authority must provide transport either direct to school or to the pick-up point; whichever is most cost effective and efficient. The Authority presently has over 150 designated sections of hazardous routes and these are considered when assessing transport for learners.

Discretionary Elements in Denbighshire's Learner Transport Policy

Post 16 Transport

Section 3.5 - The Local Authority provides discretionary transport beyond statutory school age where a Denbighshire learner resides 3 miles or more from the nearest suitable school or F.E. college. The learner must be studying full time and be less than 19 years of age on 1st September of the academic year in which the course is taken. Transport will be provided to the nearest secondary school designated by the Authority to serve the learner's home address only, or in the case of full-time vocational courses, to the nearest F.E. college. Transport between learning establishments working in a partnership with each other is provided by those partners.

Faith School Transport

Section 3.2 - On a discretionary basis the Authority will provide transport to the nearest suitable Faith school if this is the parental / carers preference. This will apply even if the school is not their nearest suitable school. The distance criteria in section 2.2 will still apply. See the table in Appendix 1 for further details of Faith schools.

If the nearest suitable Faith school is outside of County then transport would still be provided by the Authority.

Where parents / carers have specifically cited Faith based education and the nearest suitable Faith school has no available places, then the next suitable Faith based school will be considered.

Feeder School Arrangements

Section 3.4 - On a discretionary basis the Authority recognises that certain Primary schools are natural feeder schools for certain Secondary schools. Therefore in regard to Secondary education, free school transport may be provided to either the nearest suitable Secondary School or the recognised feeder Secondary school; providing that the learner lives over the distance criteria in section 2.2, and the journey is agreed to be reasonable; these criteria are shown below.

The Authority reserves the right to apply a test of reasonableness to those parents / carers requesting secondary school transport on the basis of feeder schools. To receive free transport on this basis the learner must:

- Have been attending their nearest suitable primary school from their home location as assessed at the point of admission.
- Meet the distance criteria in section 2.2 for secondary schools.
- If learners move house before commencing secondary school, their entitlement will require re-assessment, as per the criteria shown in section 2.
- In instances where learners have not attended their nearest suitable primary school by parental / carer preference, section 3.4 will not apply. The assessment of school transport applications will then be based solely on nearest suitable Secondary school.

Welsh or English Medium Education

Section 3.3 - *In accordance with section 10 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, the Authority promotes access to Welsh medium education by providing discretionary transport to the nearest suitable Welsh or English medium education, if this is parental / carer preference. This will apply even if the school is not their nearest suitable school.*

